Adroddiad i Blant

Pethau sydd angen eu gwneud i ddelio â Newid Hinsawdd

Beth ddywedodd pobl yng Nghymru am gartrefi, teithio a ffermio

Mae pobl eisiau amddiffyn yr hinsawdd. Maen nhw angen help i wneud newidiadau sy'n deg i bawb.



Fersiwn ar gyfer plant o'r adroddiad ar safbwyntiau a rannwyd ar gyfer cynllun hinsawdd Cymru 2026 i 2030

MILLER
Research Evaluation Consulting


Cynnwys

Beth ddywedodd pobl yng Nghymru am gartrefi, teithio a ffermio 1
Am y llyfryn yma 3
Deall newid hinsawdd 4
Mae beth ddywedodd pobl yn bwysig 5
Cartrefi sy'n gweithio'n well 6
Mynd o gwmpas yn haws 7
Ffermio, bwyd a natur 8
Gwneud newidiadau'n deg 9
Beth mae'r adroddiad yn ddweud 10
Geiriau 11

Am y llyfryn yma



Mae'r llyfryn yma'n esbonio beth ddywedodd pobl am leihau'r nwyon sy'n cynhesu'n planed. Mae'n edrych ar **gartrefi, teithio a ffermio** yng Nghymru.



Gofynnodd Llywodraeth Cymru i bobl am eu barn rhwng **Hydref 2025 a Chwefror 2026**. Mae Miller Research wedi casglu'r rhain at ei gilydd mewn adroddiad.



Ymunodd pobl mewn digwyddiadau lleol, cynhadledd ar-lein a thrafodaethau grŵp. Fe wnaeth rhai plant a phobl ifanc gymryd rhan hefyd. Dydi eu barn ddim yn cynrychioli barn pawb yng Nghymru.



Bydd yr adroddiad yn helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei chynllun. **Awgrymiadau, nid addewidion, yw'r syniadau sydd yma.** Gallwch ddarllen y llyfryn yma ar ben eich hun neu gyda rhywun arall.

Deall newid hinsawdd



Hinsawdd yw'r tywydd arferol yn rhywle dros amser hir. Mae ein planed yn cynhesu, sy'n newid patrymau tywydd a chynyddu risgiau fel llifogydd a gwres mawr.



Mae **nwyon tŷ gwydr** yn dal gwres o amgylch y Ddaear. Mae llosgi glo, olew a nwy yn ychwanegu mwy ohonyn nhw i'r awyr. Mae gweithgareddau eraill, gan gynnwys ffermio, yn eu gollwng nhw hefyd.



Cyllideb Carbon yw uchafswm ar y nwyon tŷ gwydr y gall Cymru eu gollwng i'r awyr dros bum mlynedd. Nid pot o arian ydyw. Mae Cyllideb Carbon 3 ar gyfer **2026 i 2030**.



Sero net yw torri nwyon tŷ gwydr cymaint â phosibl ac wedyn cydbwyso unrhyw nwyon ar ôl trwy gael gwared o'r un swm o'r awyr. Nod Cymru yw cyrraedd sero net erbyn **2050**.

Mae beth ddywedodd pobl yn bwysig



Dywedodd pobl fod cost yn rhwystr. Gall cartrefi cynhesach, gwahanol ddulliau o ffermio a ffyrdd glanach o deithio gostio mwy nag mae pobl yn gallu ei fforddio.



Mae pobl angen dewisiadau sy'n gweithio. Er enghraifft, dyw pobl ddim yn gallu defnyddio bws nad yw'n dod yn agos i'w cartref. Dyw bod eisiau newid ddim yn ddigon bob amser.



Mae pobl eisiau gwybodaeth a chyngor clir y maen nhw'n gallu ei gredu. Maen nhw hefyd eisiau llais mewn penderfyniadau am eu cymunedau eu hunain.



Mae gan bawb ran i'w chwarae, gan gynnwys llywodraethau, busnesau a chymunedau lleol.

Cartrefi sy'n gweithio'n well



Mae pobl eisiau cartrefi sy'n defnyddio llai o ynni ac sy'n gysurus i fyw ynddyn nhw. Roedden nhw'n poeni am damprwydd, llwydni a chartrefi'n mynd yn rhy boeth.



Mae **inswleiddio** yn helpu i rwystro gwres rhag dianc o adeilad. Roedd pobl yn awgrymu gwell inswleiddio a ffyrdd glanach o gynhesu tai, gyda gwelliannau addas i bob adeilad.



Gall gwella cartrefi fod yn ddrud. Mae pobl eisiau help ariannol, cyngor syml a gweithwyr medrus sy'n gwneud gwaith da. Mae pobl sy'n rhentu angen i'w landlordiaid helpu i wneud newidiadau.



Roedd pobl yn awgrymu mwy o baneli solar, sy'n defnyddio golau'r haul i wneud trydan. Maen nhw eisiau pobl sy'n rhentu eu cartrefi gael hynny hefyd. Roedden nhw hefyd yn gweld cyfleoedd am swyddi lleol i wneud gwelliannau i gartrefi.

Mynd o gwmpas yn haws



Mae pobl eisiau bysiau a threnau y gallwch chi ddibynnu arnyn nhw, eu fforddio a'u defnyddio'n hawdd. Roedden nhw'n dweud y gall gwasanaethau fod yn arbennig o anodd eu defnyddio yng nghefn gwlad.



Mae pobl eisiau lleoedd saffach i gerdded, mynd ar olwynion, a beicio. Gallai croesfannau, goleuadau a llwybrau gwell helpu mwy o bobl i deithio fel hyn.



Roedd ceir trydan yn rhan o'r sgwrs. Roedd pobl yn poeni am gost, pwyntiau gwefru a batris. Maen nhw eisiau cymorth mwy ymarferol i bobl sy'n eu defnyddio.



Mae angen i newidiadau mewn teithio fod yn addas i bobl anabl, pobl ifanc a hen bobl, a phobl heb gyswllt rhyngrwyd. Dylai pobl ddal i allu cyrraedd yr ysgol, gwaith, siopau a ffrindiau.

Ffermio, bwyd a natur



Mae ffermwyr yn tyfu bwyd ac yn edrych ar ôl tir. Dywedodd pobl fod ffermwyr angen arian, hyfforddiant a chyngor clir i leihau nwyon tŷ gwydr a delio gyda thywydd sy'n newid.



Roedd pobl yn awgrymu gofalu am bridd, gwarchod bywyd gwyllt a phlannu'r coed iawn yn y lleoedd iawn. Mae angen i'r tir helpu cynhyrchu bwyd, byd natur a'r bobl sy'n dibynnu arno.



Roedd syniadau'n cynnwys gerddi cymunedol a mwy o gyfleoedd i brynu bwyd gan dyfwyr lleol. Mae pobl hefyd eisiau i blant ddysgu o le mae bwyd yn dod a sut mae ffermio yn gweithio.



Mae pobl eisiau i ffermwyr gael llais mewn penderfyniadau. Maen nhw'n poeni am ffermwyr yn cael eu beio'n annheg, colli tir neu'n ei chael yn anodd gwneud digon o arian i fyw. Mae angen i newidiadau ddiogelu cymunedau gwledig hefyd.

Gwneud newidiadau'n deg



Mae **pontio teg** yn meddwl gwneud newidiadau mewn ffordd sy'n helpu pobl ac nad ydyn nhw'n gadael rhai grwpiau ar eu colled. Gall pobl wahanol fod angen cymorth gwahanol.



Dylai pobl sydd â llai o arian allu elwa hefyd. Mae pobl eisiau cymorth sydd ar gael yn haws ac yn haws ei ddeall a cheisio amdano.



Mae angen i wybodaeth weithio i bobl sy'n siarad ieithoedd gwahanol neu sy'n ei chael yn anodd darllen. Dylai fod help ar gael hefyd i bobl sydd ddim yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd.




Mae angen inni dorri nwyon tŷ gwydr a pharatoi ar gyfer newidiadau sy'n digwydd yn barod. Roedd pobl yn awgrymu cartrefi a thir sy'n gallu delio'n well â gwres a glaw trwm.

Beth mae’r adroddiad yn ddweud



Dywedodd pobl eu bod nhw angen help i wneud dewisiadau sy’n diogelu’r hinsawdd. Byddai teithio fforddiadwy, cyngor clir a help gyda chostau yn ei gwneud yn haws i fwy o bobl gymryd rhan.



Mae pobl eisiau helpu penderfynu ar newidiadau yn eu hardal leol. Gall gwrando ar eu syniadau a chefnogi prosiectau lleol helpu i greu ymddiriedaeth a helpu cymunedau i weithio gyda’i gilydd.



Dydi pawb ddim angen yr un help. Gall pobl a chymunedau gwahanol fod angen cymorth gwahanol. Dylai cynlluniau hinsawdd gynnwys pawb o’r cychwyn fel y gall pawb elwa.



Gall newidiadau ddiogelu’r hinsawdd a gwella bywyd bob dydd. Gall gwell trafnidiaeth, ynni glanach a gofalu am fyd natur hefyd gefnogi cymunedau iachach a chreu swyddi.

Geiriau

Nwyon tŷ gwydr – Nwyon sy'n dal gwres o amgylch y Ddaear ac yn gwneud y Ddaear yn gynhesach.

Allyriadau – Nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu rhyddhau i'r awyr.

Cyllideb carbon – Uchafswm o faint o nwyon tŷ gwydr y gall Cymru ei ryddhau dros bum mlynedd.

Sero net – Torri allyriadau nwyon tŷ gwydr gymaint â phosibl a chydbwyso'r gweddill trwy dynnu'r un swm o'r awyr.

Ynni adnewyddadwy – Ynni o ffynonellau nad oes diwedd arnyn nhw, fel golau'r haul, gwynt a dŵr.

Pontio teg – Gwneud newidiadau i ddelio â newid hinsawdd mewn ffordd sy'n deg ac yn dod â manteision i bawb, gyda chymorth i bobl sydd ei angen.